**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau, Adfywio a Chyllid

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 13 Chwefror 2024 am 9.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | C M J Evans | E W Fitzgerald |
| L James | D H Jenkins | M H Jones |
| M Jones | S M Jones | J W Jones |
| M W Locke | B J Rowlands | W G Thomas |
| M S Tribe | T M White | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Rachel Percival | Swyddog Craffu |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): P R Hood-Williams

---

58 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Nid oedd unrhyw ddatgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

59 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Dim.

60 **Cofnodion**

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

61 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

62 **Craffu cyn Penderfynu ar Adroddiadau'r Cabinet: Y Gyllideb Flynyddol**

Roedd yr Arweinydd a Ben Smith, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Swyddog Adran 151 yn bresennol. Trafodwyd y canlynol:

**Cynllunio Ariannol Tymor Canolig 2025/26 - 2027/28 (CATC)**

- Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol i ragdybiaethau cynllunio ers i'r CATC drafft gael ei gyflwyno i'r Panel ym mis Ionawr.
- Mae ansicrwydd a photensial ar gyfer newidiadau i'r CATC dros amser sy'n golygu bod rhagweld yn her.
- Mae ardoll y gwasanaeth tân yn cyfateb i 1% o'r cynnydd arfaethedig o 5.99% yn Nhreth y Cyngor.

**Cyllideb Refeniw 2024/25**

- Mae newidiadau posib i'r Gyllideb Refeniw, o ganlyniad i gyhoeddiadau pellach gan Lywodraeth Cymru a'r DU a roddwyd i'r Cyngor ym mis Mawrth.
- Mae ysgolion yn derbyn swm ychwanegol untro gwerth £7m o gronfa wrth gefn TGCh yr Hwb. Nid yw hyn wedi dod o gronfeydd wrth gefn cyffredinol Ysgolion.
- Bydd sylwadau ychwanegol o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar gael i'r Cynghorwyr maes o law.
- Mae ardoll y Cyd-bwyllgor Corfforaethol wedi cael ei lleihau 10%.  O ganlyniad i ofynion o ran cyflwyno rhaglenni gwaith ni ellid lleihau hyn ymhellach.
- Nid oes unrhyw gynlluniau yn y Gyllideb Refeniw i wneud toriadau i Gydlynwyr Ardaloedd Lleol ond cyfeiriwyd at drafodaeth yn ystod y broses cyn craffu ar gyllidebau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar 12 Chwefror lle dywedwyd bod risg i gyllid.

**Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2023/24 – 2028/29**

- Mae'r rhaglen gyfalaf yn uchelgeisiol ond rhoddwyd sicrwydd bod cost gwasanaethu'r ddyled yn parhau i fod yn fforddiadwy gyda chynlluniau i aros i fenthyca rhagor nes y bydd cyfraddau llog wedi gostwng.
- Mae'r tanwariant cyfalaf a'r arbediad cysylltiedig ar gostau cyllido cyfalaf refeniw naill ai wedi cael ei ddefnyddio i wrthbwyso'r gorwariant cyllideb refeniw neu wedi cael ei hychwanegu at y Gronfa wrth gefn Cyfartalu Cyfalaf. Mae benthyciadau posib o £50m yn y dyfodol wedi'u cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig er bydd penderfyniadau yn y dyfodol o ran sut y bydd y £50m yn cael ei amseru ar gyfer benthyca allanol a sut y caiff ei ariannu dros dro yn y cyfamser.
- Nid oes oedi penodol o ran y Rhaglen Adeiladu Ysgolion a bydd y cynlluniau presennol yn mynd rhagddynt yn ôl yr amserlen.

**Cyllideb Refeniw'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) 2024/25 a Chyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2023/24 – 2027/28**

- Rhoddwyd sicrwydd bod y cronfeydd wrth gefn presennol sydd wedi'u clustnodi yn ddigonol ar gyfer y CRT.
- Nodwyd bod taliadau gwasanaeth ar gyfer tai cymdeithasol yn cael eu codi'n flynyddol yn ogystal â rhent.

Bydd adborth Aelodau'r Panel i'r Cabinet yn seiliedig ar eu trafodaethau yn cael sylw mewn llythyr at yr Arweinydd a'i gyflwyno i'r Cabinet gan y Cadeirydd ar 15 Chwefror 2024.

63 **Gwahardd y Cyhoedd**

Gwaharddwyd y cyhoedd o'r cyfarfod am y rheswm y byddai'n cynnwys y tebygolrwydd o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i nodir ym Mharagraff 14 Adran 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007.

64 **Craffu cyn Penderfynu ar Adroddiadau'r Cabinet: Y Gyllideb Flynyddol**

65 **Cynllun Gwaith**

Nododd y panel y Cynllun Gwaith.

66 **Llythyrau**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.15am.

**Cadeirydd**